OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1893 (Cy.229)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Gorffennaf 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *19 Gorffennaf 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 125 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru 2006)(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 1 Medi 2012.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006**

**2.** Yn rheoliad 4 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**2**) (cyfrifo ffioedd)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£12.00" rhodder "£12.40";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "£39.00" rhodder "£40.20"; ac

(c) ym mharagraff (5), yn lle "£12.00" rhodder "£12.40".

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

17 Gorffennaf 2012

(**1**) 2006, p.42.
(**2**) O.S. 2006/491 (Cy.60), y mae diwygiadau iddo ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/491 (Cy.60)) ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2006 (cyfrifo ffioedd) drwy gynyddu'r ffi gymwysadwy sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Band 1 a Band 2. Mae'r ffi sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Band 3 yn parhau i fod yn £177.00 a hynny heb unrhyw newid.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.